

MYSTERIOUS AFAN CUDD

ARFAU AC ARFWISG

Nid oedd milwyr Cymreig yn daeogion neu'n ddeiliaid yn yr un ffordd ag roedd yr Eingl-Normaniaid. Roedd y byddinoedd Cymreig a oedd yn wynebu'r goresgynwyr yn seiliedig ar osgorddluoedd personol y tywysogion a phenaethiaid unigol (y Teulu). Byddai gweddill y llu yn cynnwys unrhyw ddynion lleol dros 14 oed; roedd gwasanaethu yn y ffordd yma'n cael ei ystyried yn fraint, yn wahanol iawn i'r milwyr Eingl-Normanaidd a oedd yn ystyried gwasanaeth o'r fath yn ddyletswydd.

Roedd y Teulu yn ddalwyr llawn-arfog ar gefn ceffylau. Roedd ganddynt arfwisg o grys haearn ac helm, ac yn cario tarian wedi'i addurno'n wyn, melyn, arian neu las, ynghyd â phicell. Fe allai'r niferoedd mewn byddin tywysog o Gymro amrywio o tua 120 o ddynion hyd at filoedd pan yn brwydro yn y brwydrau mawr yn erbyn Brenhinoedd diweddarach Lloegr, megis Iorwerth I.

Roedd gofaint Cymreig yn cynhyrchu arfau ac arfwisg; mae'r bardd Guto'r Glyn, a oedd wedi bod yn filwr, yn cyfeirio at Wrecsam, yng ngogledd-ddwyrain Cymru, fel canolfan ar gyfer cynhyrchu bwclerau (math o darian crwn). Roedd rhai hefyd yn cyrraedd Cymru o lefydd fel yr Almaen a Milan yn yr Eidal.



Matthew Paris' "Life of Edward the Confessor" from the 1230s
<https://artsandculture.google.com/asset/life-of-st-edward-the-confessor-ms-ee-3-59-matthew-paris-d-1259/uQEH2Dv3fldw-Q?hl=en>
<http://cudl.lib.cam.ac.uk/view/MS-EE-00003-00059/1>

MYSTERIOUS AFAN CUDD



Offa Mercia oddi wrth tract gan Matthew Paris am St. Alban. Mae ar gam oherwydd ongl o ffotograff o'r llyfr.

https://upload.wikimedia.org/wikipedia/commons/1/14/Matthew_Paris_Offa_horseback.jpg

Roedd y rhyfelwyr wedi'u gwisgo mewn crys a thrôns lliain (yn aml o liw coch); byddai rhain yn cael eu gorchuddio gyda chlogyn gwlân yn cyrraedd eu pengliniau, a ddisgrifiwyd ar adegau fel ei fod yn "rhy denau". Mae sawl awdur yn cofnodi bod saethwyr Cymreig yn gwisgo ond un esgid, gyda'r droed arall yn noeth – os yw hyn yn wir, mae'n debyg roedd hyn yn eu galluogi i gadw'u cydbwysedd ar dir garw. Roedd y dynion

yn cadw eu gwallt yn fyr; roedd mwstashis yn boblogaidd ond nid oedd barfau.

Marchogion oedd y Teulu, wedi'u gwisgo ar gyfer y frwydr mewn dull tebyg iawn i'r marchogion Seisnig, yn gwisgo crys haearn ac helmau.

Roedd y bobl a ddisgrifiodd y milwyr Cymreig fel arfer yn dod o'r ochr Normanaidd, ac yn aml yn cofnodi nad oedd y Cymry yn gwisgo arfwisg, ac yn gwisgo ond tiwnigau tenau.



Matthaei Paris Chronica Maiora II, Parker Library, Corpus Christi College, Cambridge. <https://parker.stanford.edu/parker/catalog/qt808nj0703>

MYSTERIOUS AFAN CUDD

Mae darlun Matthew Paris o'r frwydr gydag Herbert FitzWilliam hefyd yn dylunio hyn. Efallai bod hyn oherwydd bod y Normaniaid, a oedd wedi dod o Ffrainc i ymosod ar y wlad yn filwyr proffesiynol, tra bod y mwyafrif o'r milwyr Cymreig yn ffermwyr lleol, ac yn ymuno â byddin y Tywysog ond i amddiffyn eu tiroedd.

Roedd y milwyr Cymreig yn aml yn ymladd fel roeddent wedi gwneud yng nghyfnod y Rhufeiniaid – gan guddio ac ymosod yn ddisymwth ar y gelyn yn gyflym ar droed. Roedd y dull hwn o ymladd yn addas at ymladd yn y bryniau a't tir garw a oedd mor gyfarwydd i'r Cymry.

Mae Gerallt Gymro yn disgrifio'r Cymry yn ymladd yn erbyn y Normaniaid yn 1188:

“.... maen nhw'n ymladd mewn caeau, ni mewn coedwigoedd; yno mae arfwisg yn anrhydeddus, yma mae'n niwsans; maen nhw'n ennill drwy sefyll yn gadarn, ni drwy ystwythder....”

Y testun wedi'i addasu o wefannau:

<http://www.gutorglyn.net/gutoswales/cy/index.php>

<https://www.castlewales.com/warfare.html>

<https://www.twcenter.net/forums/showthread.php?349942-Welsh-Warfare-in-The-Medieval-Period>

Llyfr: a Mirror of Medieval Wales: Gerald of Wales and His Journey of 1188, Cadw Welsh Historic Monuments 1988



Darlun gan Matthew Paris 1245 o Chronica Maiora II
Parker Library, Corpus Christi College, Cambridge. P376
<https://parker.stanford.edu/parker/catalog/qt808nj0703>